Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Morfa Rhianedd

**Y Caban, Ysgol Morfa Rhianedd**
**Ffordd Cwm**
**Llandudno**
**Conwy**
**LL30 1EG**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Morfa Rhianedd

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Morfa Rhianedd |
| Categori'r gofal a ddarperir | Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Gwennan Griffith & Rachel Huws |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Catherine Charles & Isabella Leonard |
| Nifer y lleoedd | 26 |
| Amrediad oedran y plant | 2 - 4 |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 31 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 6 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Dydd Gwener 8.45yb – 11yb a 11.30yb – 2.45yp |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg a Saesneg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 23 Mai 2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mawrth 2016 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 17/05/2023 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod asesiadau a chynllunio'r ymarferwyr yn ymateb yn llawn i anghenion dysgu bob plentyn

A2 Gwella'r cyfleoedd i blant ddysgu am eu hardal lleol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae gan bob plentyn lais cryf ac maent yn lleisio eu barn yn gyson. Er enghraifft, mae rhai plant yn dewis coginio yn y gegin fwd, eraill yn palu yn yr ardal dywod neu pheintio'n gelfydd gyda brwshys ar ôl iddynt gymysgu lliwiau. Maent yn symud o amgylch yr ystafell yn hyderus, o un weithgaredd i'r llall, ac yn helpu eu hunain i adnoddau mewn bocsys a droriau yn fwriadus. Mae'r plant yn gwybod y caiff eu teimladau eu hystyried yn ofalus gan oedolion. Er enghraifft, pan maent yn teimlo'n drist, maent yn cael eu cysuro'n garedig gan ymarferwyr. Mae bron bob plentyn yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol ac yn brysur wrth ymgymryd â'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnig iddynt. Er enghraifft, mae'r plant yn mynd ati i hunangofrestru, ar ôl cyrraedd gan osod eu llun ar y siart presenoldeb.

Mae bron bob un plentyn yn teimlo'n hapus yn y lleoliad ac wedi ymgartrefu'n dda yno. Mae'r rhan fwyaf yn setlo'n gyflym wrth gyrraedd ac yn trosglwyddo oddi wrth eu rhieni neu ofalwyr heb drafferth. Maent yn gwenu wrth gyrraedd ac mae'r ychydig iawn sy'n ansicr yn ymlacio'n gyflym wedi iddynt dderbyn cysur gan ymarferwyr. Dengys bron pob plentyn hoffter tuag at yr ymarferwyr gan fynd atynt am sylw yn hapus a chyfforddus. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu perthnasoedd cadarn gyda phlant eraill. Er enghraifft, maent yn cymryd tro i ollwng ceir i lawr ramp y garej. Dengys plant falchder yn eu gwaith, er enghraifft wrth ddangos coeden a greuwyd yn y toes i ymarferwyr.

Mae bron bob plentyn yn gwneud dewisiadau annibynnol ynglŷn â’u gweithgareddau a gyda phwy i chwarae. Maent yn gwneud dewisiadau perthnasol gan ddilyn eu diddordebau. Mae bron bob un yn dechrau ar weithgareddau’n annibynnol a heb anogaeth ymarferwyr, er enghraifft wrth ceisio gwisgo gwisg ffansi er mwyn chwarae rôl. Mae bron bob un yn awyddus i chwarae â’u cyfoedion, ac maent yn rhoi cyfarwyddyd i’w gilydd, er enghraifft, wrth gollwng dŵr i lawr y pibellau. Mae bron bob plentyn yn parchu ac yn sensitif i deimladau eraill, yn enwedig wrth gymryd tro.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau arbrofi ag amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae ysgogol. Maent yn cael dewis da o gyfleoedd chwarae rhydd yn y brif ystafell ac yn yr ardal allanol. Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibyniaeth a hunangymorth priodol. Maent yn arwain eu chwarae gan ddewis gweithgareddau a chyflawni tasgau wrth chwarae rôl, gwneud gwaith celf a chwarae yn y tywod. Mae llawer yn gallu diwallu eu hanghenion personol trwy fynd i'r tŷ bach, gwisgo cot a helpu gyda’r cwpanau a phlatiau amser byrbryd.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn darparu gofal a chymorth da ar gyfer plant ac mae perthynas agos a naturiol iawn rhyngddynt. Maent yn adnabod y plant yn dda iawn, yn parchu eu diddordebau, eu hoffterau a'u gofynion personol. Er enghraifft, maent yn ymateb yn sensitif i blant sy’n dewis peidio â chymryd rhan mewn gweithgaredd. Mae’r ymarferwyr yn annog y plant i ddewis a dethol adnoddau eu hunain tu fewn a thu allan.

Mae ymarferwyr yn gweithredu polisïau priodol i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac maent yn hyrwyddo iechyd a lles plant yn effeithiol. Maent yn sicrhau bod y plant yn dod byrbryd iach megis darn o ffrwyth o adref ac yn cynnig llaeth a dŵr i yfed. Mae ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu plant, ac yn hyderus ar sut i weithredu petai ganddynt bryderon am blentyn. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae tystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol gan bob un o’r ymarferwyr. Maent yn sicrhau bod cofnodion damweiniau, gyda’r holl fanylion perthnasol, yn cael eu llenwi’n fanwl ac yn rhannu’r rhain gyda’r rhieni a gofalwyr.

Mae ymarferwyr yn datblygu perthynas gynnes â’r plant ac yn eu trin â gofal a pharch. Maent yn garedig iawn ac yn atgoffa plant i rannu teganau ac i barchu ei gilydd. Maent yn annog y plant i ddatrys unrhyw wrthdaro trwy drafodaethau synhwyrol gyda’i gilydd, heb ormod o ymyrraeth. Mae’r holl ymarferwyr yn defnyddio iaith gadarnhaol gyda'r plant yn gyson, gan hyrwyddo ymddygiad da a chefnogi'r plant yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn fedrus wrth benderfynu pa bryd i gamu’n ôl ac arsylwi’n graff ar y chwarae, a pha bryd i ymyrryd yn ddeallus a holi’r plant gyda

chwestiynau pen agored i herio plant. Nid ydynt yn ofni'r ffaith bod y plant yn gwneud camgymeriadau.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd effeithiol i'r plant ddatblygu dealltwriaeth o'u Cymreictod ac o'r byd ehangach. Maent yn hyrwyddo a dysgu sut i drin pobl o bob diwylliant gyda pharch wrth ddysgu am eu harferion a'u traddodiadau. Mae'r ymarferwyr yn frwdfrydig wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson yn y gweithgareddau ac wrth sgwrsio yn naturiol â'r plant.

Mae ymarferwyr yn manteisio'n rhagweithiol ar wasanaethau a phartneriaethau i ddarparu cymorth pwrpasol a darpariaeth effeithiol i'r plant, sy'n cynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae addysgu'r ymarferwyr yn cefnogi'r plant i ddatblygu ystod eang o fedrau da, sy'n cael effaith gadarn ar eu dysgu. Mae anogaeth frwdfrydig yr ymarferwyr yn cymell y plant i gydweithio'n ddiwyd ac i arbrofi'n hyderus wrth chwarae. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn sbarduno'r plant i arogli llysiau, teimlo gwead brocoli a disgrifio anifeiliaid y jyngl tra'n cwblhau jig-so. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu'n ddysgwyr cynyddol annibynnol.

Mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn effeithiol yn ystod chwarae'r plant. Maent yn ysgogi'r plant i ddysgu trwy amrediad o heriau ymarferol, fel llifo dŵr i symud hwyaden o ben cafn i'r gwaelod. Maent yn canolbwyntio ar ddarparu gweithgareddau difyr yn yr adeilad a thu allan, sy'n galluogi'r plant i fentro a datblygu eu medrau. Er enghraifft, maent yn herio'r plant i gymysgu mwd i greu cacenni yn y gegin allanol.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n addas ac mae'r gweithdrefnau newydd o gynllunio i ddilyn diddordebau ac awgrymiadau'r plant yn datblygu'n briodol. Mae'r ymarferwyr yn cynnal trafodaethau cyson gyda'r plant ar sut i ddatblygu eu gwaith ymhellach wrth chwarae. Maent yn plethu'r sgyrsiau rheolaidd hyn gyda'u hasesiadau yn foddhaol i geisio cynllunio'r camau nesaf yn nysgu plant unigol. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth yn ddigon effeithiol i dargedu gwir anghenion unigolion.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd diddorol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Maent yn holi'r plant yn ddeallus wrth iddynt greu marciau gyda phaent a sialc ac annog y plant i ddisgrifio cymeriadau o lyfrau yn fanwl. Maent yn herio'r plant i wella eu medrau rhifedd trwy esbonio priodweddau siapiau a rhifo a didoli tedis yn ôl lliw gyda gefeiliau. Yn ogystal, maent yn cynnig cyfleoedd cyson i wella medrau digidol cynnar y plant, trwy ddefnyddio apiau addysgol ar lechi electronig a ffonau symudol i gynnal sgyrsiau ymysg ei gilydd.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn datblygu medrau corfforol cadarn. Maent yn eu hannog i droedio a chydbwyso ar lwybr o deiars, ac i ddringo a llithro ar gyfarpar anturus, fel llong y môr-ladron. Maent yn darparu gweithgareddau creadigol da fel defnyddio nwyddau ailgylchu i greu cerbydau. Yn ogystal, maent yn annog y

plant i beintio a phrintio gyda llysiau a gwisgo fel cymeriadau gwahanol tra'n trefnu llestri yn yr ardal gartref.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru'n dda trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, sôn am hanes Santes Dwynwen ac astudio cestyll Cymru. Yn ogystal, maent yn dathlu amrywiaeth yn fuddiol trwy rannu mewn gwyliau arbennig, fel y Flwyddyn Newydd Dsieiniaidd, a chreu llusernau i ddathlu Diwali.

Mae'r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth fuddiol am gyflawniadau'r plant i'w rhieni a'u gofalwyr ar gyfryngau cymdeithasol, trwy drafodaethau llafar ac mewn llyfrynnau cynnydd.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae ansawdd yr amgylchedd yn ddiogel, yn gyfoethog ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant tu mewn a thu allan i'r adeilad. Mae asesiadau ysgrifenedig yn amlinellu'r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal y risg i blant. Mae arweinwyr yn cadw cofnod o'r holl blant, staff ac ymwelwyr, yn sicrhau bod prif ddrysau yn cael eu cadw ar glo, ac yn gweithredu system gadarn ar gyfer rheoli mynediad i'r safle. Mae arweinwyr yn sicrhau bod cofnodion cynnal a chadw'r adeilad yn gyfredol.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr ardaloedd chwarae yn ddiddorol, deniadol ac yn lliwgar. Trwy arddangos ffotograffau o'r plant yn ymgymryd â gweithgareddau ac ambell i esiampl o waith y plant ar waliau'r ystafell, mae ymarferwyr yn creu ymdeimlad o falchder a pherthyn yn y plant, ac yn creu naws groesawgar i bawb sy'n ymweld â'r lleoliad.

Mae ansawdd yr amgylchedd yn cynnig cyfleoedd da i blant chwarae a dysgu. Mae toiledau addas ar gael sy'n parchu preifatrwydd y plant. Mae'r drysau o'r brif ystafell i'r ardal allanol yn agored drwy'r sesiwn ac, o ganlyniad, gall y plant ddewis ble i chwarae yn ôl eu dymuniad. Mae'r ardal allanol yn galluogi plant i ddatblygu'n dda yn gorfforol, yn greadigol ac yn ymchwiliol. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau defnyddio'r cyfarpar i chwilio am drychfilod. Mae'r dodrefn, cyfarpar, teganau ac adnoddau yn briodol ac o safon dda, ac maent yn cael eu cynnal a'u cadw'n ofalus. Mae'r ymarferwyr yn cadw adnoddau ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol ac i ddilyn eu diddordebau unigol yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r plant yn gyfarwydd ag estyn a dychwelyd offer i'w mannau priodol.

Mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau effeithiol er mwyn cadw'r amgylchedd a'r offer yn lân ac mewn cyflwr priodol. Maent yn sicrhau bod plant yn cael eu goruchwylio'n ofalus mewn amgylchedd diogel. Mae arweinwyr yn sicrhau bod preifatrwydd y plant yn cael ei barchu'n llwyddiannus wrth iddynt defnyddio'r tŷ bach ac wrth newid cewyn.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gweledigaeth glir yr arweinwyr yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn cydweithio'n frwdfrydig i ddarparu gweithgareddau diddorol, sy'n hybu dysgu'r plant yn effeithiol.

Mae strategaethau arwain y lleoliad yn gadarn ac mae’r arweinwyr yn canolbwyntio’n dda ar wella’r ddarpariaeth a deilliannau’r plant.

Mae’r arweinwyr yn cynllunio ymlaen llaw yn ddeallus i ddarparu cyfarpar ac adnoddau diddorol a phwrpasol. Maent yn cynnig gofal bugeiliol a theyrngar, sy’n creu ymdeimlad o berthyn ymysg y plant a’r oedolion. O ganlyniad, mae’r awyrgylch gadarnhaol yn annog y plant i ymdrechu’n gyson wrth chwarae a dysgu.

Mae'r arweinwyr a’r ymarferwyr yn gweithio’n effeithiol fel tîm. Mae’r ymarferwyr yn awyddus i wella’u harferion er lles y plant, ac maent yn gwrando’n ofalus ar awgrymiadau’r arweinwyr a swyddogion yr asiantaethau cefnogi. Mae trefniadau rheolaidd yn eu lle i werthuso perfformiad, ac mae’r arweinwyr yn goruchwylio a gwerthuso gwaith yr ymarferwyr yn drwyadl. Yn ogystal, maent yn sicrhau bod arferion recriwtio diogel yn cael eu gweithredu’n gywir.

Mae'r arweinwyr yn gosod disgwyliadau synhwyrol ar gyfer eu hunain a’r ymarferwyr er mwyn cynnal safonau da. Maent yn adnabod cryfderau’r lleoliad a’r materion i’w gwella yn gywir, trwy weithdrefnau hunanwerthuso cyson. Mae’r targedau priodol ar gyfer gwelliant, sy’n deillio o’u gwerthuso rheolaidd, yn ddibynadwy. Er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi canolbwyntio ar ddilyn diddordebau’r plant yn well yn yr ardaloedd dysgu. O ganlyniad, mae’r arweinwyr yn canolbwyntio ar gyflwyno gwelliannau’n gyson i gryfhau arferion y lleoliad.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i safbwyntiau pawb sy’n ymwneud â’r lleoliad. Maent yn cynnal trafodaethau defnyddiol gyda’r holl randdeiliaid, fel yr asiantaethau cefnogi, i wella’r ddarpariaeth a phrofiadau’r plant. Er enghraifft, maent yn gwrando’n ofalus ar y swyddogion cefnogi ynglŷn â datblygu’r arferion cynllunio a sut i asesu cyflawniadau’r plant. Yn ogystal, maent yn gweithredu ar awgrymiadau’r rhieni a’r gofalwyr yn ystyrlon, gan ddarparu lluniau o weithgareddau’r plant ar gyfryngau cymdeithasol diogel.

Mae'r arweinwyr newydd ailgydio mewn partneriaethau lleol, i gynnig profiadau ychwanegol i’r plant. Er enghraifft, mae’r hylenydd deintyddol yn ymweld â’r lleoliad a rhieni yn mynychu i addurno bisgedi gyda’u plant. Yn ogystal, mae’r berthynas gynhyrchiol gyda’r ysgol yn paratoi’r plant i’r cam nesaf yn eu haddysg yn effeithiol. Fodd bynnag, prin yw’r cyfleoedd i blant ddysgu am eu cynefin a’u milltir sgwâr.

Mae’r arweinwyr yn dyrannu adnoddau’n dda. Maent yn defnyddio’r gyllideb a’r grantiau yn effeithiol ac yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau’r lleoliad yn bwrpasol. Er enghraifft, maent yn cyllido adnoddau amrywiol yn ddoeth, fel cyfarpar i arbrofi â dŵr ac adnoddau digidol fel camerâu a llechi electronig. Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod ystod o hyfforddiant perthnasol ar gael i’r ymarferwyr, sy'n gwella’u harferion addysgu a’u harbenigedd i gefnogi a gofalu am y plant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 21/07/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |
| 6 (3) (b) [i] (aa) | Regulation 6 of The Child Minding and Day Care (Wales) Regulations 2010 –the registered person must have a current Disclosure and Barring Service certificate; | Cyflawnwyd |
| 25 (c) | Regulation 25 of The Child Minding and Day Care (Wales) Regulations 2010 – unnecessary risks to the safety of children are identified and so far as possible eliminated. The registered persons need to record how they manage and reduce potential risk to children identified at this inspection within their risk assessments; | Cyflawnwyd |
| 28 (1) (a) | Regulation 28 of The Child Minding and Day Care (Wales) Regulations 2010 – the registered persons need to ensure all suitability checks have been completed on staff with copies evidencing this kept on individual staff files, and | Cyflawnwyd |
| 29 (3) (a) | Regulation 29 of The Child Minding and Day Care (Wales) Regulations 2010 – registered persons need to ensure staff receive regular and individual supervision throughout the year and annual appraisals. | Cyflawnwyd |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 21 Gorffennaf 2023